

Datganiad Tâl a Gwobrwyo 2018 Tai Wales & West

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio dull gweithredu WWH o ran y ffordd y byddwn yn talu ac yn gwobrwyo ein gweithlu, gan nodi niferoedd y staff sydd wedi cael elfennau amrywiol dros y 12 mis diwethaf. Adroddir y datganiad i'r Bwrdd bob blwyddyn ac yn dilyn hyn, yn ysbryd gweithredu agored a thryloyw, bydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan WWH.

Mae'n ymwneud â'r cyfnod o fis Ionawr i fis Rhagfyr 2018, yn unol â blwyddyn ariannol WWH.

1. Diben a nod y datganiad

Bwriedir i'r datganiad ddarparu gwybodaeth ynghylch y polisi tâl a gwobrwyo er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch o ran y ffordd y byddwn yn gwobrwyo ein staff am y rolau a gyflawnir.

2. Egwyddorion talu

Rydym wedi ymrwmo i drefniadau tâl a gwobrwyo tryloyw a theg sy'n cynnig gwerth am arian ac sy'n golygu y gellir recriwtio a chadw staff sy'n meddu ar y sgiliau a'r cymhelliant i ddarparu lefel uchel o wasanaeth ar draws y cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt.

Seiliwyd ein dull gweithredu tuag at dâl ar yr egwyddorion canlynol:

- Fforddiadwyedd a gwerth am arian
- Tâl cyfartal
- Gweithredu agored a thryloyw
- Cefnogi Cyflog Byw "go iawn" Joseph Rowntree fel cyflogwr achrededig

3. Cwmpas

Mae'r datganiad tâl yn disgrifio'r trefniadau tâl a gwobrwyo sy'n berthnasol i'r holl staff.

Cyflogeion uwch yw'r Tîm Rheoli Uwch (sy'n cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth).

Y cyflogeion y telir y symiau isaf iddynt yw'r swyddi hynny sy'n cyd-fynd â'r Cyflog Byw.

4. Y cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ynghylch tâl

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo trefniadau cyflog, gan gynnwys y strwythur cyflogau (bandiau WWH), unrhyw ddyfarniadau costau byw a'r penderfyniad i fod yn gyflogwr sy'n talu'r Cyflog Byw.

Mae gan y Bwrdd nod a ddatganwyd o dalu cyfraddau canolrifol yn y farchnad, heb unrhyw 'daliadau bonws' na 'thâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad'.

5. Strwythur cyflogau

Cynhelir adolygiad cyflogau bob blwyddyn ym mis Gorffennaf; mae hyn yn cynnwys adolygu'r cyflog yn yr holl fandiau cyflogau, cyflogau spot a lwfansau sifftiau. Gallai'r adolygiad arwain at godiad 'cost byw' canrannol. Yn ddiethriad, efallai y cynhelir adolygiadau tâl interim yn unol â grymoedd y farchnad. Y Bwrdd sy'n gwneud yr holl benderfyniadau ynghylch cyflogau.

Mae'n strwythur cyflogau yn cynnwys:

- Rolau sy'n cyd-fynd â Chyflog Byw Joseph Rowntree a gyhoeddir ym mis Tachwedd bob blwyddyn. Bydd WWH yn gweithredu'r raddfa, a bydd yn dod i rym yn y mis Ionawr dilynol.
- Amrediad o fandiau (A – J) gyda 5 pwynt cynyddrannol; mae hyn yn darparu strwythur clir a thryloyw sy'n dangos cyfraddau talu cynyddol dros gyfnod o amser (5 mlynedd fel arfer).

Caiff rolau o fewn y bandiau eu neilltuo i swyddi gan ddefnyddio cynllun gwerthuso swyddi sy'n pennu gwerth perthynol gwahanol swyddi o fewn y gymdeithas. Mae'r broses yn cynnwys system sgorio lle y caiff pwyntiau eu neilltuo yn erbyn gwahanol elfennau; defnyddir yr un elfennau ar gyfer pob swydd. Mae'r cynllun gwerthuso swyddi ar gael i'r holl staff ei weld ar ein mewnrwyd.

Fel arfer, gwneir penodiadau newydd i'r pwynt cyntaf ar y strwythur bandio (cynyddiad 1) oni bai bod rheswm cadarn dros bennu eithriad e.e. rhywun a oedd eisoes yn gweithio i WWH ac yr oeddent ar gynyddiad uchaf y band oddi tano yn union cyn iddynt gael eu penodi (oni bai bod sanctsiwn perfformiad/disgyblu yn datgan fel arall).

Yn ogystal, pan fo hynny'n rhesymol, a chan ystyried y cyfraddau yn y farchnad, byddwn yn ceisio sicrhau na fydd unigolion yn dioddef gostyngiad i'w cyflog pan fyddant yn ymuno â ni.

Mewn amgylchiadau arbennig, ac yn unol â disgrisiwn y Prif Swyddog Gweithredol yn unig (e.e. am resymau sy'n ymwneud â chadw staff/marchnad gystadleuol), gellir dyfarnu datblygiad cyflog wedi'i gyflymu trwy'r graddfeydd cynyddrannol i gyflogeion.

Ar ôl penodi rhywun, bydd cyflogau'n destun codiad cynyddrannol bob blwyddyn (hyd at gynyddiad 5), oni bai bod sanctsiwn perfformiad/disgyblu yn nodi fel arall.

- Cyflogau spot ar gyfer aelodau'r Tîm Rheoli Uwch (heb gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr)

Cynhelir gweithgarwch profi'r farchnad (gan ddefnyddio data allanol neu trwy ddefnyddio ymgynghorwyr) yn ôl yr angen. Yn ystod y blynyddoedd interim, gweithredir unrhyw ddyfarniad 'cost byw' cyffredinol y bydd y Bwrdd yn cytuno arno.

- Cyflogau spot ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr

Cynhelir gweithgarwch profi'r farchnad (gan ddefnyddio data allanol neu trwy ddefnyddio ymgynghorwyr) yn ôl yr angen. Trafodir y wybodaeth gan Bwyllgor Cyflogau, a fydd yn gwneud argymhelliad i'r Bwrdd wedi hyn. Bydd y Bwrdd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

Nid yw cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad a thaliadau bonws yn berthnasol i'n strwythur cyflogau a gwobrwyo; bydd staff yn cael cyflog a phecyn buddion cystadleuol, ac yn gyfnewid am hyn, disgwyliwn i bawb wneud gwaith da.

Mae'r strwythur cyflogau a'r cyfraddau perthynol yn **Atodiad I**.

Nodir niferoedd y staff sydd ar bob lefel yn **Atodiad II**.

6. Amodau a thelerau gwasanaeth cyflogaeth

Mae gan fwyafrif y cyflogeion amodau a thelerau gwasanaeth, gan gynnwys cyflog, a bennir gan y Gymdeithas.

Yn unol â rheoliadau TUPE, fodd bynnag, mae rhai staff wedi dewis cadw at amodau a thelerau gwasanaeth eu cyflogwr blaenorol.

Gallai gweithdrefnau rheoli newid a ysgogir gan fusnes arwain at sefyllfa lle y diogelir cyflog rhai aelodau o staff hefyd, am hyd at 2 flynedd fel arfer.

7. Cyflog Cyfartal

Mae Proffil y Rôl ar gyfer pob swydd ar draws y sefydliad yn cynnwys cymal Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Byddwn yn penodi staff i rolau yn ôl eu haeddiant, waeth beth fo eu hoedran, eu hil, eu rhyw, eu statws priodasol, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hanabledd neu eu crefydd neu eu credo.

Gweithredir y broses gwerthuso swyddi i bob swydd o fewn y cyfraddau cynyddrannol.

Cynhelir gweithgarwch er mwyn profi'r farchnad allanol er mwyn cyfrannu at gyflogau spot ar gyfer swyddi o fewn y Tîm Rheoli Uwch.

Pennir cyfradd y Cyflog Byw gan Sefydliad Cyflog Byw Joseph Rowntree ac fe'i cyhoeddir ym mis Tachwedd bob blwyddyn.

8. Pensiynau

Cyfraniadau pensiwn

Rydym yn aelod o'r Ymddiriedolaeth Pensiynau ac yn gweithredu'r Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol (SHPS).

Mae'r Cynlluniau yn sicrhau cyfraniad cyffredinol a bennir gan yr Ymddiriedolaeth, a adolygir bob tair blynedd. Gallai cyfraniadau pensiwn amrywio rhwng y gwahanol Gynlluniau a hefyd, rhwng cyflogwyr a chyflogeion.

Cynlluniau â Buddion wedi'u Diffinio:

Mae'r cynllun Cyflog Terfynol 1/60 wedi cau i aelodau newydd.

Mae cynllun GOFAL 1/60 ar agor i gyflogeion presennol a newydd ac mae modd i staff wneud cais i ymuno â'r cynllun hwn fel dewis amgen i'r cam o awto-gofrestru ar gynllun DC isod.

Cynllun â Chyfraniadau wedi'u Diffinio:

Hwn yw ein cynllun enwebedig ar gyfer awto-gofrestru ar gynllun pensiwn. Ar hyn o bryd, rhennir y cyfraddau cyfrannu dan drefniant 2:1 (cyflogwr/cyflogai).

Rydym yn gweithredu trefniant aberthu cyflog pensiwn hefyd, sy'n sicrhau arbedion Yswiriant Gwladol fel arfer. Bydd y cyfanswm ariannol a delir i'r cynllun pensiwn yn aros yr un fath, ac ni effeithir ar fuddion y cynllun pensiwn.

Cynllun SHPS	Nifer y cyflogeion yn y cynllun*
Cyflog Terfynol 1/60 Buddion wedi'u Diffinio (<i>ar gau i aelodau newydd</i>)	144
GOFAL 1/60 Buddion wedi'u Diffinio	66
Cyfraniadau wedi'u Diffinio	150
*Nifer y cyflogeion nad ydynt yn rhan o gynllun pensiwn	42

9. Treuliau cynhaliath a theithio busnes

Ad-dalir staff am gostau sy'n codi wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau angenrheidiol. Byddwn yn talu taliadau milltiroedd sy'n unol â'r lwfansau a gymeradwywyd gan CThEM ac i'r graddau ag y bo modd, ni fydd y rhain yn arwain at rwymedigaethau Yswiriant Gwladol neu dreth ychwanegol.

Byddwn yn cytuno ar gyfraddau corfforaethol gyda nifer o westai, ac mae'n rhaid defnyddio'r rhain oni bai y ceir amgylchiadau arbennig; mae'r trefniadau hyn yn cynnwys costau llety. Mae trefniadau mwy hyblyg yn bodoli ar gyfer bwyd a diodydd, lle y caniateir i staff ddewis (hyd at lwfans) ble i fwyta. Rhaid darparu derbynneb gyda phob hawliad.

Nifer y staff a wnaeth hawliadau teithio a/neu gynhaliath dros y 12 mis diwethaf	269
--	-----

10. Taliadau a lwfansau ychwanegol

Gan ddibynnu ar ofynion busnes, efallai y bydd staff yn gymwys i gael y taliadau ychwanegol canlynol yn ystod eu cyflogaeth:

- **Goramser:**

Mae gweithio goramser yn drefniant gwirfoddol ac yn cael ei awdurdodi ymlaen llaw. Os bydd rhywun yn gwneud gwaith goramser, telir cyfradd safonol yr awr am yr amser a weithir hyd at 37 awr yr wythnos ac amser a hanner am oriau weithir dros 37 awr mewn wythnos.

Nifer y staff a gafodd daliadau goramser yn ystod y 12 mis diwethaf (heb gynnwys gwaith sifft yn y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid)	49
--	----

- **Lwfansau sifft ar gyfer gweithwyr symudol:**

Mae gwirfoddolwyr ar draws y busnes yn creu tîm o weithwyr symudol sy'n cynorthwyo preswylwyr os bydd argyfwng neu sefyllfaoedd difrifol yn codi.

- Gŵyl y Banc (nos)
- Gŵyl y Banc (dydd)
- Gweithiwr symudol (ar-alwad)

Nifer y gweithwyr symudol a gafodd lwfans sifft dros y 12 mis diwethaf (heb gynnwys gwaith sifft yn y Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid)	7
---	---

- **Cymwysterau:** Rydym yn ymdrechu i gynorthwyo unigolion sy'n dymuno astudio am gymhwyster a byddwn yn talu rhwng 50% a 100% o'u ffioedd gan gynnwys cofrestru/aelodaeth myfyriwr (os bodlonir y meini prawf).

Nifer y staff a gynorthwywyd i astudio am gymwysterau dros y 12 mis diwethaf	19
--	----

- **Ffioedd proffesiynol:** Byddwn yn talu cost ffioedd tanysgrifio blynyddol ac unrhyw ffioedd unigol pan fo aelodaeth y corff proffesiynol yn berthnasol ac o fudd i'r unigolyn ac i ni, wrth iddynt gyflawni eu rôl.

Nifer y staff y talwyd ffioedd proffesiynol ar eu cyfer dros y 12 mis diwethaf	59
--	----

- **Taliadau marchnad atodol:** mae hwn yn berthnasol i swyddi lle y mae data am y farchnad allanol yn arwain at daliad atodol i'r cyflog sylfaenol ar gyfer y rôl.

Gellir addasu'r taliad atodol hwn i fyny neu i lawr yn unol â chyfraddau'r farchnad.

Nifer y rolau y maent wedi sicrhau taliad marchnad atodol yn ystod y 12 mis diwethaf	1
--	---

- **Lwfans gweithio ar lefel uwch:** Pan fydd y Gymdeithas yn gofyn i unigolion gyflawni cyfrifoldebau ychwanegol am gyfnod y cytunir arno, y dyfarnir swm ariannol am wneud hyn.

Nifer y rolau a sicrhaodd lwfans gweithio ar lefel uwch dros y 12 mis diwethaf	0
--	---

- **Diogelu cyflog:** Pan fo band y swydd a/neu'r enillion arferol mewn rôl a ddilëwyd yn uwch na'r swydd y caiff aelod o staff eu neilltuo iddynt, diogelir y cyflog blaenorol am hyd at 2 flynedd. Trwy hyn, ni fydd y cyflog yn newid nes bydd yr adeg yn dod pan fydd cyflog y swydd barhaol newydd yr un fath â neu'n uwch na chyflog y rôl blaenorol.

*Nifer y staff sy'n destun trefniadau diogelu cyflog ar hyn o bryd	6
--	---

**Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys staff sy'n manteisio ar hawliau diogelu dan TUPE.*

11. Perthynoledd cyflogau o fewn WWH

Y cyflog isaf o fewn WWH yw cyfradd yr awr Cyflog Byw Joseph Rowntree (nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid sydd ar gontractau hyfforddiant, y mae'r cyfraddau prentisiaeth a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn berthnasol iddynt).

Y swydd sy'n cael y cyflog uchaf yw rôl y Prif Swyddog Gweithredol.

Ar hyn o bryd, 8.8:1 yw'r gymhareb rhwng y swyddi sy'n cael y cyflog uchaf ac isaf.

4.6:1 yw'r gymhareb rhwng y cyflog cyfartalog ar draws y sefydliad a'r swydd sy'n cael y cyflog uchaf.

12. Bwlch Cyflog rhwng y Rhy

Mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn nodi'r gwahaniaeth rhwng enillion cyfartalog menywod o'u cymharu ag enillion cyfartalog gwrywod.

Rydym wedi defnyddio methodoleg Adrodd am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau y Llywodraeth (ym mis Ebrill 2018) er mwyn nodi mai ein bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau yw 13.0% ac mai'r bwlch canolrifol yw 14.0%.

Mae cyfran y gwrywod a'r benywod ym mhob braced chwartel fel a ganlyn:

Chwartel	Grywod	Benywod
Is	30.2%	69.8%
Canol is	29.9%	70.1%
Canol uchaf	36.1%	63.9%
Uchaf	45.4%	54.6%

Nid yw gwybodaeth sy'n ymwneud â thaliadau bonws yn berthnasol i ni.

Seiliwyd y ffigurau ar y data ynghylch cyflogau ar y dyddiad a bennwyd gan y Llywodraeth, sef Ebrill 2018. Caiff hwn ei gyfrifo o'r newydd bob blwyddyn a'i gyhoeddi yn y ddogfen hon ar ein gwefan.

Byddwn yn ceisio gwaredu'r bwlch cyflog trwy ein hymrwymiad i sicrhau bod ein prosesau yn dryloyw a bod staff yn cael eu recriwtio a'u gwobrwyo mewn ffordd deg, beth bynnag fo eu rhyw.

Ein cam cyntaf fydd creu tystiolaeth er mwyn ein helpu i nodi unrhyw rwystrau sy'n atal cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chyfrannu at flaenoriaethau i'w gweithredu.

13. Pecyn gwobrwyo a chydabod ehangach

Yn ychwanegol i gyflog cyflogai a'r taliadau a nodwyd uchod (gan gynnwys pensiynau), mae WWH yn cynnig amrediad bellach o fuddion ariannol ac anariannol yn y gweithle, gan gynnwys:

- Cynllun Arian Iechyd
- Rhaglen Cynorthwyo Cyflogeion (EAP)
- Trefniadau estynedig sy'n gyfeillgar i deuluoedd e.e. mamolaeth/mabwysiadu/tadolaeth
- Diwrnod Cymunedol y Staff (amser i ffwrdd am dâl er mwyn gwirfoddoli)
- Talebau gofal plant
- Benthyciadau teithio cynaliadwy – cerbydau / beiciau gydag allyriadau isel
- Benthyciadau am docynnau tymor (trafnidiaeth)



- Trefniadau gwaith hyblyg
- Amser hyblyg
- Cyfleoedd dysgu a datblygu
- Cynhadledd flynyddol y staff / parti Nadolig
- Gwobrau Gwasanaeth Hir/Teyrngarwch

Mae staff yn cael datganiad gwobr ariannol unigol gyda phamffled cyffredinol “*Eich Buddion*” sy'n amlinellu ac sy'n hyrwyddo ystod ehangach y buddion sydd ar gael.

Graddfeydd Cyflog ar 1 Gorffennaf 2018

Tîm Rheoli Uwch – ystod cyflog spot

Ystod y Cyflog (£)	Nifer yn y swydd
140,000 - 149,900	1
130,000 - 139,900	0
120,000 - 129,900	1
110,000 - 119,900	0
100,000 - 109,900	2
90,000 - 99,900	0
80,000 - 89,900	0
70,000 - 79,900	3
60,000 - 69,900	4

Cynyddrannau	1	2	3	4	5
Band J	£44,962	£46,736	£48,512	£50,288	£52,058
Band I	£36,088	£37,862	£39,637	£41,412	£43,188
Band H	£32,341	£33,261	£34,183	£35,103	£36,025
Band G	£29,220	£29,999	£30,779	£31,559	£32,341
Band F	£26,383	£27,090	£27,779	£28,509	£29,220
Band E	£23,970	£24,575	£25,176	£25,778	£26,383
Band D	£21,844	£22,375	£22,908	£23,439	£23,970
Band C	£20,140	£20,565	£20,993	£21,419	£21,844
Band B	£18,439	£18,864	£19,292	£19,716	£20,140
Band A	-	-	£17,446	£17,941	£18,439

Cyfraddau cyflog eraill

Cyflog Byw Joseph Rowntree £8.75 yr awr (cyflog cyfatebol, £16,835)

Teitl y Swydd	Nifer yn y swydd
Prif Weithredwr (CEO)	1
Dirprwy CEO / Cyfarwyddwr Masnachol	1
Cyfarwyddwr Gweithrediadau	1
Cyfarwyddwr Adnoddau	1
Penaethiaid Gwasanaeth	7
Band J	33
Band I	17
Band H	93
Band G	38
Band F	39
Band E	86
Band D	37
Band C	7
Band B	7
Band A	3
Cyflog Byw	31
WWH Apprentice – 1 st year	1
Cyfanswm	403